**Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru**
**National Youth Theatre of Wales**



## Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru 2012

Mae Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn cynnig hyfforddiant a phrofiad perfformio dosbarth cyntaf i bobl ifanc. Mae ganddo enw da ar gyfer creu a chyflwyno cynyrchiadau ar raddfa fawr sy'n gallu swyno, pryfocio, cynhyrfu, herio ac ysbrydoli. Mae ar flaen y gad o ran theatr ieuenctid yng Nghymru.

Mae ThCIC yn cynnwys 60 person ifanc rhwng 16 – 21 oed, sy'n cael eu clyweld yn flynyddol ac sy'n dod o bob rhan o Gymru.

Yn ystod cwrs preswyl pum wythnos yn ystod yr haf, mae aelodau'r Theatr Ieuenctid yn gweithio ochr yn ochr â chyfarwyddwyr, coreograffwyr, cerddorion, dylunwyr a thechnegwyr proffesiynol i greu ac ymarfer cynhyrchiad newydd cyn dechrau ar gyfres o berfformiadau cyhoeddus.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Theatr Ieuenctid wedi bod ar daith i rai o theatrau mwyaf poblogaidd Cymru gan gynnwys Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Clwyd Theatr Cymru (Yr Wyddgrug), Sherman Cymru (Caerdydd), Theatr Brycheiniog (Aberhonddu), Glan yr Afon (Casnewydd) a Theatr Richard Burton (Caerdydd). Mae'n cyflwyno rhwng 9 - 11 perfformiad cyhoeddus ar bob taith, i gynulleidfa o 2,500 - 3,000 o bobl y flwyddyn!

Mae ThCIC yn darparu ar gyfer pobl ifanc sydd â diddordeb mewn un neu fwy o'r canlynol: actio, dylunio ac adeiladu set, gwisg a cholur, goleuo a sain, a goruchwyliaeth lwyfan. Gall ymgeiswyr gael eu clyweld ar gyfer actio a chefn y llwyfan (Noder: rhaid i ymgeiswyr ar gyfer y ddau lenwi Ffurflen Gais Actio a Ffurflen Gais Cefn y Llwyfan).

### ThCIC 2012 — Cwrs Preswyl a Pherfformiadau

| | |
|---|---|
| Lleoliad | Aberystwyth |
| Dyddiadau | 8 Awst—8 Medi 2012 (*dros dro*) |
| Perfformiadau/ Taith | 31 Awst—8 Medi 2012 (*dros dro*). |

Cost £390 *(i'w gadarnhau)*

[Noder: gellir cytuno â swyddfa ThCIC i dalu mewn rhandaliadau. Fodd bynnag, rhaid talu cyfanswm y gost erbyn 31 Gorffennaf 2012.]

### Cymorth Ariannol

Rydym yn awyddus i sicrhau na fydd neb yn cael ei atal rhag gwneud cais ar gyfer ThCIC oherwydd rhesymau ariannol. Mae'r holl geisiadau ar gyfer cymorth ariannol yn gwbl gyfrinachol.

### Gwybodaeth bellach

Cysylltwch â 029 2026 5006 neu e-bostiwch gillian.wells@nyaw.co.uk am wybodaeth bellach am ThCIC neu Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru.

### Gofynion Clyweld

Dylai ymgeiswyr fod yn rhan o grwp drama mewn ysgol/coleg, neu'n rhan o theatr ieuenctid leol. Dylai ymgeiswyr ar gyfer ThCIC 2012 fod rhwng 16 – 21 oed erbyn 31 Awst 2012.

**Rhaid** i ymgeiswyr llwyddiannus fod ar gael am y cwrs preswyl pum wythnos i gyd.

### Gweithdai-Clyweld — Actio

- Bydd y clyweliad yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar eich sgiliau a'ch hyblygrwydd o ran actio a gwaith byrfyfyr. Mi fydd hefyd yn cynnwys symudiad, gwaith llais a chanu.
- Dylech baratoi dau ddarn cyferbyniol sydd, yn eich barn chi, yn dangos eich ystod ar ei gorau; dylai'r ddau ddarn fod tua 1 munud o hyd (dim Shakespeare nag ymsonau yr ydych wedi eu hysgrifennu eich hun).
- Os yw eich darn allan o ddrama, gwnewch yn siwr eich bod wedi ei darllen ac yn gallu siarad amdani!
- Byddwch yn barod i rannu unrhyw sgiliau eraill sydd gennych, ee. sgiliau syrcas, rapio, acrobatig.
- Bydd lle gwag er mwyn i chi berfformio a dodrefn sylfaenol - ond ni fydd propiau ar gael. Dysgwch eich darn ar eich cof yn dda iawn (ond nid yn rhy gaeth) a dewch â llungopi glân o'r darn gyda chi. Cewch eich cyfarwyddo ar ryw adeg yn y clyweliad - gofynnir i chi ailadrodd darn mewn ffordd wahanol neu newydd - a dylech fod yn barod i ymateb yn greadigol i'r her hon.

  Dyddiadau a lleoliadau clyweld dros dro (actio):

| | |
|---|---|
| 14 Ionawr 12—Gorseinon | 15 Ionawr 12—Caerdydd |
| 28 Ionawr 12—Caernarfon | 29 Ionawr 12—Rhos |
| 11 Chwefror 12—Aberystwyth | 12 Chwefror 12—Caerfyrddin |
| 25 Chwefror 12—Casnewydd | 26 Chwefror 12—Caerdydd |

### Gweithdai-Clyweld— Cefn y Llwyfan

Rhaid i ymgeiswyr:

- weithio gyda'i gilydd ar weithgareddau ymarferol;
- ddod â'u Curriculum Vitae (CV) neu Gofnod Cyrhaeddiad ac i fod yn barod i siarad am brofiadau drama/theatr cynt a diddordebau;
- ddod â **dwy** enghraifft o'u gwaith a/neu dystiolaeth o fod yn rhan o gynyrchiadau cynt.

  Dyddiadau a lleoliadau clyweld dros dro (cefn y llwyfan):

  29 Jan 12— Rhos
  11 Feb 12— Aberystwyth
  26 Feb 12— Cardiff

[Noder: mae'r holl ddyddiadau/lleoliadau clyweld wedi'u selio ar ledaeniad daearyddol nodweddiadol ymgeiswyr ac mae'n bosib y gwnânt newid os oes llai na 12 ymgeisydd i bob lleoliad. Yn yr un modd, gellir trefnu dyddiad/lleoliad ychwanegol os oes digon o alw.]

### Cost

**Mae clyweliadau yn rhad ac am ddim.** Fodd bynnag, mae gofyn i chi ddanfon siec am £20 (yn daladwy i *Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru*) fel blaendal. Caiff y siec ei dychwelyd atoch os byddwch yn mynychu eich apwyntiad ar yr amser a gytunwyd. Bydd y rheiny na fyddant yn ymddangos yn y clyweliad yn colli'r taliad.

### Sut i Wneud Cais

Llenwch y ffurflen gais sydd wedi'i hatodi a danfonwch hi gyda'ch blaendal a 2 ffotograff maint pasport (enw a dyddiad geni wedi'u printio'n glir ar y cefn) erbyn **5ed Rhagfyr 2011** at y cyfeiriad canlynol:

**ThCIC, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF5 2YX**

Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Theatre of Wales

# Cais i ymuno â ThCIC 2012
# (Actio)

Printiwch yr holl wybodaeth

Bydd yr holl wybodaeth a roddir ar y ffurflen gais hon yn cael ei gadw ar y Gronfa Ddata Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid. O bryd i'w gilydd efallai y byddwn yn dymuno rhoi eich manylion cyswllt i fudiadau celfyddydau eraill. Os **nad** ydych yn dymuno i ni wneud hyn, ticiwch y blwch hwn: ☐

Cyfenw: ______________________ Enw(au) cyntaf: ______________________

Dyddiad Geni: ______________________ Oed ar 31.08.12 (blynyddoedd/misoedd): ________

Cyfeiriad cartref: ______________________________________________

Tref/Dinas: ______________________ Cod post: ______________________

Awdurdod Lleol: ______________________ Rhif Ffôn Cartref: (____) ______________________

Rhif Ffôn Symudol: ______________________ Cyfeiriad E-bost: ______________________

Ysgol/Coleg/Prifysgol: ______________________________________________

Cyfeiriad yn ystod y tymor (os yn wahanol i'r cyfeiriad cartref uchod): ______________________

______________________________________________

Awdurdod Lleol: ______________________________________________

Os ydych wedi bod yn aelod o ThCIC, neu os ydych wedi gwneud cais i ymuno â ThCIC o'r blaen ond roeddech yn aflwyddiannus, rhowch fanylion o ble a phryd y cawsoch chi eich clyweld/cyfweld:

______________________________________________

Mae ThCIC yn gweithredu yn Saesneg ac yn Gymraeg; ticiwch ✓ eich rhugldet yn yr iaith Gymraeg
Rhugl (Iaith 1af ) ☐ Rhugl (2il Iaith) ☐ Cyffyrddus/gwybodaeth sylfaenol ☐ Dim ☐

Ai iaith ar wahân i Saesneg neu Gymraeg yw eich iaith gyntaf? ☐ Iaith: ______________________

A fyddai'n well gennych chi gael eich clyweld yn Saesneg ☐ neu yn Gymraeg ☐ (ticiwch fel y bo'n briodol)

**Lleoliad Clyweld sy'n well gennych chi**
Nodwch eich dewis **cyntaf** ac **ail** ddewis ar gyfer eich clyweliad gan ysgrifennu 1 a 2 yn y blychau priodol

| | | |
|---|---|---|
| Gorseinon (14 Ion) ☐ | Caerdydd (15 Ion) ☐ | Caernarfon (28 Ion) ☐ |
| Rhos (29 Ion) ☐ | Aberystwyth (11 Chwe) ☐ | Caefyrddin (12 Chwe) ☐ |
| Casnewydd (25 Chwe) ☐ | Caerdydd (26 Chwe) ☐ | |

**Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru**
**National Youth Theatre of Wales**

Os ydych chi'n gallu canu, dawnsio neu ganu offeryn cerdd, rhowch fanylion. Nodwch unrhyw raddau arholiad yr ydych wedi'u hennill.

______________________________________________
______________________________________________
______________________________________________
______________________________________________
______________________________________________
______________________________________________

Rhowch fanylion unrhyw ddiddordebau eraill a/neu sgiliau (e.e. syrcas, capoeira, acrobateg, ffotograffiaeth, fideo, sgiliau DJ, rapio, ysgrifennu, ayb.)

______________________________________________
______________________________________________
______________________________________________
______________________________________________

Rhowch ✓ os ydych yn astudio un o'r cyrsiau canlynol yn 2011/12.

TGAU Drama ☐ UG Drama/Astudiaethau Theatr ☐ Safon Uwch Drama/Astudiaethau Theatr ☐

Rhowch fanylion yr holl grwpiau drama a/neu theatr ieuenctid rydych yn ymwneud yn rheolaidd â nhw tu allan i'r ysgol/ coleg.

| Enw(au)'r Grwp(iau) | Enw'r Arweinydd/Tiwtor | Lleoliad (e.e. Caerdydd, Rhyl) |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

Pam hoffech chi ymuno â ThCIC?

______________________________________________
______________________________________________
______________________________________________
______________________________________________

A oes unrhyw beth arall amdanoch chi eich hun yr hoffech i ni wybod i gefnogi'ch cais?

______________________________________________
______________________________________________
______________________________________________
______________________________________________

**Rhaid i'ch ffurflen gais gael ei chefnogi gan rywun sy'n eich adnabod chi a'ch diddordeb mewn drama/theatr ieuenctid (gall fod eich Prifathro, Athro/Athrawes neu Arweinydd y Theatr Ieuenctid)**

Enw'r Canolwr: ____________________ Galwedigaeth: ____________________

Cyfeiriad Cyswllt: ________________________________________

Rhif Ffôn yn ystod y dydd:____________________

**Efallai y byddwn yn cysylltu â'ch canolwr. Sicrhewch fod yr holl fanylion yn gywir.**

**Amgaeaf siec am £20 (yn daladwy i Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru) fel blaendal.**
**Yr wyf yn deall y byddaf yn colli'r blaendal hwn os na fyddaf yn mynychu'r clyweliad ar yr amser a gytunwyd.**

Llofnod yr ymgeisydd: ____________________ Dyddiad: __/__/____

Dychwelwch y ffurflen gais wedi'i llenwi ynghyd â dau ffotograff maint pasport (gyda'ch enw a'ch dyddiad geni wedi'u printio'n glir ar y cefn), a siec am £20.00 (yn daladwy i *Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru*) at y cyfeiriad canlynol erbyn **<u>5ed Rhagfyr 2011.</u>**


**Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF5 2YX**

**ffôn: 029 2026 5006 ffacs: 029 2026 5014 e-bost: gillian.wells@nyaw.co.uk www.nyaw.co.uk**

**Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru**
**National Youth Theatre of Wales**

# Cais i ymuno â ThCIC 2012
# (Cefn y Llwyfan)

Printiwch yr holl wybodaeth

Bydd yr holl wybodaeth a roddir ar y ffurflen gais hon yn cael ei gadw ar y Gronfa Ddata Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid. O bryd i'w gilydd efallai y byddwn yn dymuno rhoi eich manylion cyswllt i fudiadau celfyddydau eraill. Os **nad** ydych yn dymuno i ni wneud hyn, ticiwch y blwch hwn: ☐

Cyfenw: ______________________ Enw(au) cyntaf: ______________________

Dyddiad Geni: ______________________ Oed ar 31.08.12 (blynyddoedd/misoedd): __________

Cyfeiriad cartref: ____________________________________________

Tref/Dinas: ______________________ Cod post: ______________________

Awdurdod Lleol: ______________________ Rhif Ffôn Cartref: (____) ______________

Rhif Ffôn Symudol: ______________________ Cyfeiriad E-bost: ______________________

Ysgol/Coleg/Prifysgol: ____________________________________________

Cyfeiriad yn ystod y tymor (os yn wahanol i'r cyfeiriad cartref uchod): ______________________

____________________________________________

Awdurdod Lleol: ____________________________________________

Os ydych wedi bod yn aelod o ThCIC, neu os ydych wedi gwneud cais i ymuno â ThCIC o'r blaen ond wedi bod yn aflwyddiannus, rhowch fanylion o ble a phryd y cawsoch chi eich clyweld/cyfweld:

____________________________________________

Mae ThCIC yn gweithredu yn Saesneg ac yn Gymraeg; ticiwch ✓ eich rhuglder yn yr iaith Gymraeg
Rhugl (Iaith 1af) ☐ Rhugl (2il Iaith) ☐ Cyffyrddus/gwybodaeth sylfaenol ☐ Dim ☐
Ai iaith ar wahân i Saesneg neu Gymraeg yw eich iaith gyntaf? ☐ Iaith: ______________________

A fyddai'n well gennych chi gael eich cyfweliad yn Saesneg ☐ neu yn Gymraeg ☐ (ticiwch fel y bo'n briodol)

**Lleoliad Clyweliad sy'n well gennych chi**
Nodwch eich dewis **cyntaf** ac **ail** ddewis ar gyfer eich clyweliad gan ysgrifennu 1 a 2 yn y blychau priodol

Rhos (29 Ion) ☐ Aberystwyth (11 Chwe) ☐ Caerdydd (26 Chwe) ☐

**Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru**
**National Youth Theatre of Wales**

Rhowch ✓ os ydych yn astudio un o'r cyrsiau canlynol yn 2011/12.

TGAU Drama ☐ UG Drama/Astudiaethau Theatr ☐ Safon Uwch Drama/Astudiaethau Theatr ☐

Mae'n ddefnyddiol i ni wybod pa waith cefn y llwyfan/dylunio/technegol yr ydych wedi ei wneud o'r blaen, yn ogystal â meysydd eraill o waith cefn y llwyfan y gall fod o ddiddordeb i chi. Darparwch fanylion am y tair sioe ddiwethaf yr ydych wedi gweithio arnynt:

| | Teitl y Ddrama/Cynhyrchiad | Theatr/Grŵp Drama | Swydd (ee Goruchwyliwr Llwyfan, Sain, Gwisg, ayb) |
|---|---|---|---|
| 1. | | | |
| 2. | | | |
| 3. | | | |

Nodwch, yn nhrefn yr hyn sy'n well gennych chi, y meysydd sydd o ddiddordeb i chi (1 = mwyaf o ddiddordeb; 6 = lleiaf o ddiddordeb):

Dylunio a gwneud set ☐ Dylunio a gwneud gwisgoedd ☐ Dylunio a gwneud propiau/pypedau ☐

Dylunio Sain / Cerddoriaeth ☐ Dylunio Golau ☐ Criw Llwyfan ☐ Goruchwyliaeth Lwyfan ☐

Sut mae'n well gennych chi weithio? Ticiwch ✓ y blwch/blychau priodol:

Cyfrannu syniadau ☐ Gwylio/cynorthwyo ag ymaferion ☐ Trefnu timau/Rheoli pobl ☐

Gweithredu'r sioe ☐ Gwneud ☐ Eraill (enwch) ____________________

Pam rydych chi eisiau ymuno â ThCIC?

____________________

____________________

____________________

A oes unrhyw beth arall amdanoch chi eich hun yr hoffech i ni wybod i gefnogi'ch cais?

____________________

____________________

____________________

**Rhaid i'ch ffurflen gais gael ei chefnogi gan rywun sy'n eich adnabod chi a'ch diddordeb mewn drama/theatr ieuenctid (gall fod eich Prifathro, Athro/Athrawes neu Arweinydd y Theatr Ieuenctid)**

Enw'r Canolwr: ____________________ Galwedigaeth: ____________________

Cyfeiriad Cyswllt: ____________________

Rhif ffôn yn ystod y dydd: ____________________

**Efallai y byddwn yn cysylltu â'ch canolwr. Sicrhewch fod yr holl fanylion yn gywir.**

**Amgaeaf siec am £20 (yn daladwy i Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru) fel blaendal.**
**Yr wyf yn deall y byddaf yn colli'r blaendal hwn os na fyddaf yn mynychu'r clyweliad ar yr amser a gytunwyd.**

Llofnod yr ymgeisydd: ____________________ Dyddiad: __/__/____

Dychwelwch y ffurflen gais wedi'i llenwi ynghyd â dau ffotograff maint pasport (gyda'ch enw a'ch dyddiad geni wedi'u printio'n glir ar y cefn), a siec am £20.00 (yn daladwy i *Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru*) at y cyfeiriad canlynol erbyn **5ed Rhagfyr 2011.**


**Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF5 2YX**

**ffôn: 029 2026 5006 ffacs: 029 2026 5014 e-bost: gillian.wells@nyaw.co.uk www.nyaw.co.uk**